

Kirsty Williams AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

Alun Davies AC / AM
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Minister for Lifelong Learning and Welsh Language



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhagfyr 6 2016

At: Bob Pennaeth a Phrif Weithredwr ym maes Addysg Bellach

Annwyl Gyfaill

Blaenoriaethau ar gyfer y Sector Addysg Bellach 2017/18

Rwy'n ysgrifennu i gadarnhau fy mlaenoriaethau ar gyfer y sector addysg bellach yng Nghymru ar gyfer blwyddyn academaidd 2017/18, er mwyn rhoi fframwaith ar gyfer llywio eich cynlluniau gweithredol a'ch strategaethau ar gyfer y dyfodol.

Mae'r blaenoriaethau canlynol¹ yn creu fframwaith ar gyfer fy amcanion:

- **Cyrraedd y Safonau Rhyngwladol a rhagori arnynt**
- **Hyrwyddo Cydraddoldeb a Thegwch**
- **Cefnogi Swyddi a Thwf**
- **Cynnal cynaliadwyedd ariannol**

Rwy'n disgwyl i Sefydliadau Addysg Bellach barhau i ddarparu'r sylfaen orau i unigolion ar gyfer mynd ymlaen i fyd gwaith, i ddysgu ymhellach ac i sgiliau uwch. Dylid annog dysgwyr i fod yn aelodau rhagweithiol a chynhyrchiol o'u cymunedau, a thrwy gynyddu eich ymwneud â chyflogwyr a chreu cysylltiadau agosach â'r cymunedau rydych yn eu gwasanaethu, byddwch yn eu helpu i dyfu'n ddinasyddion crwn o fewn eu cymdeithas.

Efallai bod y dyheadau hyn yn rhai uchelgeisiol, ond rwyf o'r farn y gallwn, drwy weithio gyda'n gilydd, sicrhau'r canlyniadau gorau posibl. Fy nod yw ichi barhau i weithio'n strategol ac ar y cyd er mwyn gwneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael.

Wrth nodi fy mlaenoriaethau ar gyfer addysg bellach, rwy'n cydnabod nad yw'r angen i greu system sgiliau gynaliadwy a chystadleuol ar frys yng Nghymru wedi newid, ac oherwydd hynny mae Datganiad Polisi Llywodraeth Cymru ar Sgiliau 2014 yn dal i fod yn adnodd cyfeirio defnyddiol ar gyfer pob polisi addysg ôl-16 ac sy'n ymwneud â sgiliau yng Nghymru.

Drwy gydweithio, gallwn sicrhau y caiff dysgwyr gyfleoedd cyfartal i gyrraedd y safonau uchaf, gan feithrin hyder, uchelgais ac arloesedd ar yr un pryd. Bydd ein llwyddiant yn y dyfodol yn deillio o optimistiaeth ynghylch potensial ein myfyrwyr, ein hathrawon a'n sefydliadau. Mae'n anochel bod yna heriau o'n blaenau, ond maent i'w croesawu yn hytrach na'u hosgoi. Rydym i gyd wrthi'n gwneud penderfyniadau pwysig ynghylch ein gallu, gyda'n

¹ Gweler y trosolwg yn [Atodiad 1](#)


gilydd, i greu system addysg i ddysgwyr sy'n fodern, yn rhagorol ac yn arloesol. Er mwyn gwneud hynny, rhaid inni anelu i fod yn sector sy'n ymroddedig i ragoriaeth, gydag ysgolion, colegau a phrifysgolion o'r radd flaenau sy'n meithrin cysylltiadau cryf â chyflogwyr, cymunedau a phartneriaid.

Os gallwn wneud y pethau sylfaenol yn iawn, gallwn godi ein safonau a chyflawni ein huchelgais i sicrhau rhagoriaeth i bawb. Rhaid inni barhau i ganolbwyntio ar gau'r bwlch cyrhaeddiad, a darparu system addysg gynaliadwy sy'n cynnig addysg i fwy o bobl, yn cefnogi myfyrwyr, ac yn hyrwyddo arloesi ac entrepreneuriaeth.


Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, er gwaethaf amgylchedd economaidd sydd â heriau di-ri, mae'r sector addysg bellach yng Nghymru wedi mynd o nerth i nerth. Drwy fynd i'r afael â'r blaenoriaethau yn y llythyr hwn, rwy'n hyderus y gall y sector addysg bellach adeiladu ar y llwyddiannau hyn a sicrhau'r cyfleoedd gorau posibl i ddysgwyr a chyflogwyr. Mae yna feysydd polisi² sy'n ategu fy mlaenoriaethau, meysydd polisi sy'n cynnig cyfleoedd gwirioneddol i wella gwasanaethau a'r ddarpariaeth; ac i adeiladu sector addysg bellach sydd mewn sefyllfa well i fanteisio ar gyfleoedd i ddatblygu Cymru yn economaidd ac yn gymdeithasol.

Os oes gennych gwestiynau, cysylltwch ag Andrew Clark, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Addysg Bellach a Phrentisiaethau yn Andrew.Clark@cymru.gsi.gov.uk neu ar 01443 663 913.

Yn gywir



Kirsty Williams AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros
Addysg



Alun Davies AC / AM
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes

² Gweler Atodiad 1

Blaenoriaethau ar gyfer addysg bellach ar gyfer 2017/18:

Blaenoriaeth 1: Cyrraedd y Safonau Rhyngwladol a rhagori arnynt

Fel gwledydd eraill, mae Cymru'n cystadlu er mwyn datblygu set sgiliau a fydd yn diffinio pa mor llwyddiannus fyddwn ni yn y dyfodol ac yn cefnogi'r gwaith o esblygu yn wlad fedrus iawn, gan gynyddu cynhyrchiant, lleihau rhwystrau i fyd gwaith a chefnogi pobl i gael gwaith. Mae angen sector addysg bellach cryf ar Gymru a all gynnig darpariaeth o ansawdd uchel i ddysgwyr, sy'n denu dysgwyr i gyrsiau gan gynnwys llwybr i raglenni sgiliau uwch a hyfforddiant sy'n cael ei gydnabod yn rhyngwladol. Mae angen sector arnom sy'n ymroddedig i ragoriaeth, â cholegau a phrifysgolion o'r radd flaenaf a all greu cysylltiadau cryf â chymunedau, cyflogwyr a phartneriaid rhyngwladol. Mae codi lefel cyrraedd ei ddysgwyr i lefel 3 neu'n uwch yn hanfodol er mwyn bodloni'r gofynion ar gyfer y dyfodol; lefel 3 yw'r lefel lle gall cymwysterau galwedigaethol ddod â manteision economaidd gwirioneddol i unigolion.

Mae'r blynyddoedd nesaf yn hollbwysig o ran cyflawni'r uchelgeisiau a rennir – ac a fynnir, yn wir – ledled Cymru. Mae'r gwaith wedi dechrau i gyflwyno cwricwlwm newydd, a fydd wedi'i lunio yng Nghymru, ond y bydd cwricwla gorau'r byd wedi dylanwadu arno. Drwy fabwysiadu'r fframwaith newydd, byddwn yn sicrhau bod ein pobl ifanc yn abl i fyw bywydau personol, dinesig a phroffesiynol cyflawn yn ein democratiaeth fodern.

Cyhoeddwyd canlyniadau Safon Uwch 2015/16 ar 18 Awst. Er bod y gyfradd basio gyffredinol yr un fath ag yn 2015, roedd y gyfradd basio A*-C wedi gostwng 0.5 pwynt canran i 73.8%, ac roedd y gyfradd basio A*-A wedi gostwng 0.4 pwynt canran i 22.7%. Er bod cyfraddau cyrraedd dysgwyr yn parhau ar lefel barchus, ni allwn fforddio i laesu dwylo. Rhaid inni gadw llygad barcud ar y safonau.

Fodd bynnag, mae'n dal i fod yn anodd cymharu rhwng ysgolion a cholegau addysg bellach o ran eu data perfformiad. Er bod mwy o ddysgwyr 16-19 oed mewn colegau addysg bellach nag yn y chweched dosbarth yn gyffredinol, mae tua 3-4 gwaith yn fwy o ddysgwyr Safon Uwch mewn chweched dosbarth nag mewn colegau.

Ar hyn o bryd, caiff canlyniadau dysgwyr mewn chweched dosbarth ac mewn colegau addysg bellach eu mesur ar wahân drwy ddulliau gwahanol, ac nid yw'r naill na'r llall yn rhoi digon o sylw i raddau. Mae'r gwaith i ddatblygu cyfres newydd, gyson o fesurau, a gaiff eu defnyddio yn y ddau sector, eisoes wedi dechrau. Bydd cyflwyno'r mesurau newydd, a gaiff eu defnyddio mewn colegau addysg bellach ac mewn dosbarthiadau chwech, yn rhoi darlun mwy crwn o ddeilliannau dysgwyr ar bob lefel. Mae'n anochel y bydd y mesurau newydd yn galw am newid pwyslais ar gyfer colegau ac ysgolion, gan roi rhagor o bwyslais ar gyflawniad dysgwyr o safbwynt eu hamcanion dysgu cyffredinol, gwerth ychwanegol a monitro parodrwydd dysgwyr i fynd ymlaen i ddysgu ar lefel uwch neu i gael gwaith. Y bwriad yw y byddant ar waith ar gyfer dechrau blwyddyn academaidd 2017/18, er ein bod yn rhagweld cyfnod o 'redeg ar y cyd' â'r mesurau presennol.

Rwyf hefyd am weld colegau addysg bellach yn datblygu dull cydlynol a chynaliadwy o ddarparu addysg uwch, gan ei sefydlu'n gadarn mewn cynlluniau strategol rhanbarthol, a chanolbwyntio ar greu partneriaethau rhanbarthol cryfach, mwy effeithiol rhwng sefydliadau wrth gyflwyno addysg uwch – partneriaethau sy'n bodloni anghenion cyflogwyr o ran sgiliau. Mae hwylustod mynediad i raglenni lefel 4 a 5 yn hollbwysig o ran ein dymuniad i gynyddu sgiliau lefel uwch yng Nghymru.

Yn yr un modd, hoffwn i'r sector addysg bellach gymryd camau i gynnal y gwaith o ddatblygu cynlluniau a darpariaeth prentisiaethau lefel uwch mewn ffordd strategol a chydlynol i gefnogi anghenion busnesau o ran sgiliau a datblygiad dysgwyr. Sefydlwyd Rhaglen Blaenoriaethau Sgiliau 2014 i ymateb i anghenion cyflogwyr lleol drwy feithrin sgiliau eu diwydiant a hyfforddiant i helpu dysgwyr i ddysgu'r sgiliau iawn. Mae'n parhau i gefnogi'r sector i feithrin y gallu i addysgu sgiliau lefel uwch a datblygu dulliau arloesol.

Rhaid inni ddarparu'r sgiliau a'r wybodaeth, yr uchelgais, yr hyder a'r cymwysterau sydd eu hangen ar ein dysgwyr i sicrhau eu llwyddiant yn unigol a'n llwyddiant yn genedlaethol. Efallai bod safbwyntiau pobl ynghylch PISA yn gwahaniaethu, ond dyna'r meincnod rhyngwladol cydnabyddedig o ran sgiliau. Rhaid inni gael system addysg sy'n ei gwneud yn bosibl i'n dinasyddion gystadlu â'r gorau yn y byd, a rhaid i hynny fod yn flaenoriaeth inni.

Mae ein colegau addysg bellach yn hollbwysig i'r weledigaeth hon. Rwyf am ichi fod yn agored ac yn eangfrydig, gan greu cysylltiadau rhwng cyfleoedd cymdeithasol ac economaidd. Dylai llwybrau academiaidd a galwedigaethol drwy addysg bellach ac ymlaen i addysg uwch fod yn agored i bawb er mwyn iddynt gyflawni eu potensial addysgol. Mae cryn gamau inni eu cymryd yn hyn o beth.

Mae'r ffaith bod y DU yn mynd i dynnu allan o'r Undeb Ewropeaidd yn dod â chryn heriau, ond hefyd gyfleoedd a chyfrifoldebau newydd. Fel sector, rwyf am ichi arwain, arloesi a datblygu darpariaeth yn ôl yr angen, gan gefnogi diwylliant o uchelgais, rhagoriaeth ac entrepreneuriaeth.

O gydweithio, mae'r sectorau addysg bellach ac addysg uwch mewn sefyllfa i hyrwyddo dinasyddiaeth weithredol gymunedol, sy'n helpu unigolion i gael mynediad i gymdeithas sy'n seiliedig ar wybodaeth a chyfrannu at y gymdeithas honno. Mae angen canolbwyntio ar gaffael a datblygu sgiliau, ac ymchwil o'r radd flaenaf sy'n hwyluso cyfnewid gwybodaeth gymaint â phosibl. Mewn partneriaeth, byddwn yn hyrwyddo hyn. Mae'r broses o baratoi ar gyfer gweithle a fydd wedi'i drawsnewid yn y dyfodol yn galw am ddysgwyr o bob oed, proffesiwn addysgu unedig sy'n ymroddedig i ragoriaeth, a phenderfyniad gan golegau a phrifysgolion gorau'r byd i greu'r cysylltiadau cryfaf â chyflogwyr, cymunedau a phartneriaid rhyngwladol. Drwy gydweithio, gallwn sicrhau bod pawb yn elwa ar gyfle cyfartal i gyrraedd y safonau uchaf.

Blaenoriaeth 2: Hyrwyddo Cydraddoldeb a Thegwch

Mae'r sector addysg bellach yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o feithrin gallu pobl sy'n byw mewn cymdogaethau difreintiedig. Hoffwn eich annog i barhau i weithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid cymunedol i godi lefel dyheadau a chyrhaeddiad, drwy gynnig gwybodaeth, cyngor a chanllawiau ystyrlon.

Mae lleihau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng dysgwyr o'n cymunedau mwyaf difreintiedig a'r rheini o ardaloedd mwy llewyrchus yn hollbwysig i'r flaenoriaeth hon. Hoffwn i bob ymdrech gael ei gwneud i helpu i godi safonau a mynd i'r afael â'r anghyfiawnder hwn. Os ydym am gyrraedd y nod o drechu tloidi yn ein cymdeithas, mae angen i sefydliadau addysg bellach sicrhau bod darpariaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn cael ei thargedu er mwyn rhoi cyfleoedd dysgu sy'n helpu pobl i gael gwaith ac i gadw gwaith, yn ehangu cyfranogiad oedolion, ac yn cynyddu nifer yr oedolion sy'n cael eu tynnu o gefndiroedd difreintiedig, gan helpu i feithrin eu hyder a'u gallu, pwy bynnag ydynt a lle bynnag maent yn byw.

Cafodd Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru ei ddatblygu er mwyn cynnig offeryn asesu cyson a safonedig i'n dysgwyr ledled Cymru. Polisi Llywodraeth Cymru yw bod rhaid asesu lefel sgiliau yr holl ddysgwyr ôl-16 sy'n dilyn darpariaeth Sgiliau Hanfodol a ariennir gan Lywodraeth Cymru drwy Asesiadau Cychwynnol a Diagnostig y Pecyn Cymorth. Rhaid i ni

barhau i weithio gyda'n gilydd er mwyn sicrhau bod y Pecyn Cymorth yn cael ei ddefnyddio gan yr holl ddarparwyr addysg ôl-16 yng Nghymru os ydyn ni am wireddu ein nod terfynol o ddarparu offeryn asesu Sgiliau Hanfodol cyson a safonedig ledled Cymru.

Rhaid i'n system addysg fod yn agored, yn gynhwysol ac yn hyblyg, a dyna pam caiff adnoddau eu rhoi i nifer o feysydd penodol sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Rwy'n falch o weld bod y rhan fwyaf o'r sector yn ymrwymedig i gynyddu eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Fodd bynnag, ychydig iawn sydd wedi gosod targedau i gynyddu eu darpariaeth ar gyfer cyrsiau penodol, a fyddai'n cyfrannu at y targed cenedlaethol a nodir yn Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru. Mae'n bwysig bod colegau addysg bellach yn darparu ystod o gyfleoedd i ddysgwyr barhau â'u datblygiad ieithyddol wrth iddyn nhw fwrw ymlaen â'u haddysg.

Yn eich cynlluniau cyflawni ar gyfer 2017/18 rwy'n gobeithio gweld targedau uchelgeisiol ar gyfer cynyddu'r ddarpariaeth hon, gan weithio gyda fy swyddogion er mwyn eich helpu i benderfynu ble i ganolbwyntio. Hoffwn i bob coleg anelu i ddarparu rhaglenni cyfrwng Cymraeg cyflawn neu ddwyieithog ar Lefelau 2 a 3 gan nodi amserlenni eglur. Er mwyn eich cynorthwyo gyda'r ymrwymiad hwn byddwn yn eich annog i fanteisio ar y cymorth sydd ar gael drwy ein cytundeb gyda Sgiliaith³ a'r Cynllun Sabothol⁴.

Nid yw darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn sefyll ar ei phen ei hunan, ac fe ddylai fod cyswllt clòs rhyngddi a'ch cynlluniau ar gyfer ymwneud â chyflogwyr a menter. Mae cyflogwyr yn gweld angen cynyddol am sgiliau iaith Gymraeg yn y gweithle ac yn gweld bod anallu i benodi i rai swyddi yn cyfrannu tuag at y swyddi sy'n wag oherwydd prinder sgiliau. Mae sgiliau iaith Gymraeg yn rhoi mantais gystadleuol i berson ifanc na fydd gan bawb o'u cyfoedion, ac mae'n hanfodol bwysig bod pobl ifanc yn cydnabod gwerth eu sgiliau iaith Gymraeg ac yn parhau i'w defnyddio a'u datblygu wrth iddynt ymgymryd â'u haddysg ôl-16.

Yn yr un modd, nod Prosiect Seren yw rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr disgleiriaf Cymru gael eu hymestyn a'u herio er mwyn cynyddu cyfran y myfyrwyr o Gymru sy'n gwneud ceisiadau llwyddiannus i brifysgolion gorau'r Deyrnas Unedig. Mae agenda 'ehangu mynediad' Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar bwyslais ar gynyddu nifer y dysgwyr sy'n mynd i addysg uwch o gefndiroedd sy'n gymdeithasol- ac yn economaidd-ddifreintiedig, ac sy'n byw mewn ardaloedd daearyddol penodol o Gymru, ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf a'r rheini nad ydynt wedi bod yn cael eu cynrychioli'n ddigonol yn draddodiadol mewn addysg uwch.

Mae naw o'r 11 canolfan bartneriaeth a fwriadwyd ar gyfer Rhwydwaith Seren wedi'u sefydlu'n ffurfiol ac wedi dechrau cryfhau eu prosesau cydweithio rhwng ysgolion a cholegau er mwyn cefnogi myfyrwyr sy'n abl yn academaidd. Mae pob canolfan yn cynnwys clwstwr o ysgolion a cholegau Addysg Bellach mewn ardal leol, yn cydweithio ochr yn ochr ag awdurdodau lleol a chonsortia addysg i ddarparu gweithgareddau uwch-gwricwlaidd (ymestyn a herio) ar gyfer disgyblion Blwyddyn 12, gan ddarparu arweiniad a chymorth i baratoi ar gyfer y brifysgol yn ogystal. Mae yna le i adeiladu ar y datblygiad hwn a'i grynhoi er budd pob dysgwr. Gellid gwella'r prosesau rhannu gwybodaeth, mentora, adolygu a chyfoethogi (ee cysylltiadau â chyn-fyfyrwyr, ysgolion haf, ymweliadau â sefydliadau addysg uwch, mentora), ar sail yr arferion gorau presennol. Mae swyddogion wrthi ar hyn o bryd yn paratoi canllawiau ar gyfer delio â dysgwyr Mwy Abl a Thalentog a allai fod yn fan cychwyn defnyddiol.

Rwy'n pwysu arnoch felly i fynd ati i ymwneud â Rhwydweithiau Seren a hwyluso'r gwaith o'u cyflwyno er mwyn hyrwyddo cyfle cyfartal.

³ sgiliaith.llandrillo.ac.uk/

⁴ www.cynllunsabothol.org.uk/

Blaenoriaeth 3: Cefnogi Swyddi a Thwf

Rhaid i wella sgiliau cyflogadwyedd fod yn thema allweddol sy'n sail i'r holl ddarpariaeth ôl-16, er mwyn cynyddu uchelgais dysgwyr o ran cael gwaith a'u dyhead o ran enillion. Dylai fod yn amcan amlwg yn eich gwaith cynllunio darpariaeth.

Rhaid i bobl ifanc sy'n gadael addysg orfodol fod wedi'u paratoi gyda'r sgiliau hanfodol sydd eu hangen arnynt ar gyfer bywyd a gwaith. Drwy'r Cynllun Gweithredu Sgiliau, rwy'n disgwyl y bydd pob dysgwr yn cael cefnogaeth i wella eu sgiliau llythrennedd a rhifedd, sy'n hanfodol ar gyfer y byd gwaith neu i fynd ymlaen i ddysgu ymhellach.

Dangosodd yr Arolwg Cenedlaethol diweddaraf o Sgiliau Oedolion mai pobl ifanc 16-19 oed oedd y grŵp oedran mwyaf tebygol o fod â sgiliau llythrennedd ar Lefel Mynediad neu'n is, gydag 20 y cant wedi'u hasesu ar y lefel hon. Mae angen o hyd i fuddsoddi yn sgiliau'r garfan hon felly, ac mae'r angen hwn yn debygol o barhau. Mae sefydliadau addysg bellach yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o ddarparu ar gyfer y grŵp hwn, ac mae'n hollbwysig bod y ddarpariaeth hon yn cael ei datblygu a'i chryfhau yn barhaus.

Rwy'n cydnabod yr arbenigeddau sector a ddatblygwyd gan nifer ohonoch, sy'n cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr. Rwyf o'r farn bod angen i'r gweithgareddau hyn ddod yn rhan o strategaeth gydynol ar gyfer ymwneud â chyflogwyr, y bydd yn rhaid i Wybodaeth gadarn am y Farchnad Lafur fod yn sail iddi. Nododd adroddiad blynyddol Estyn ar gyfer 2014/15 bod cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer y cyrsiau sydd ar gael, ond nad oes digon o sylw yn cael ei dalu yn gyffredinol i Wybodaeth am y Farchnad Lafur, a bod angen darparu cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu dealltwriaeth dda o'r farchnad lafur a'u rhagolygon o ran cael gwaith⁵. Mae'n dilyn felly y byddwn am annog defnydd o Wybodaeth am y Farchnad Lafur i gefnogi'r gwaith blynyddol o gynllunio a blaenoriaethu darpariaeth wrth gyflwyno eich cynlluniau gweithredu o dan y fframwaith Cynllunio a Chyllido, er mwyn diwallu anghenion marchnadoedd llafur lleol/blaenoriaethau sector fel y'u nodir mewn Cynlluniau Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol.

Ym mis Gorffennaf 2016, datblygodd pob un o'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol⁶ ail fersiwn o'u cynllun Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Wrth iddynt barhau i ddatblygu, bydd yna waith pellach ym maes galw, cyflenwad a defnydd o sgiliau ym mhob un o'r rhanbarthau. Mae ystod o Wybodaeth am y Farchnad Lafur ar gael drwy'r Porth Sgiliau, ac ar StatsCymru, ynghyd â'r tair Arsyllfa Dysgu a Sgiliau Ranbarthol⁷. Mae'r adolygiad o waith Cynllunio Dilyniant Addysg Bellach a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn gwneud argymhellion penodol ar gyfer sefydliadau addysg bellach, gan gynnwys defnyddio Gwybodaeth am y Farchnad Lafur.⁸

5

https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/ESTYN_Annual%20Report%202016%20FINAL_WELSH_Accessible_WEB.pdf

⁶ Mae rhagor o wybodaeth am bob Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol i'w gweld yn:

Y de-ddwyrain: <http://sewso.infobasecymru.net/IAS/>

Y gorllewin a'r canolbarth: <http://rlp.infobasecymru.net/IAS/>

Y gogledd: <http://nweo.infobasecymru.net/IAS/>

7

- Porth Sgiliau <http://busnescymru.llyw.cymru/porthsgiliau>
- StatsCymru <https://statscymru.llyw.cymru/>
- Arsyllfa Dysgu a Sgiliau Ranbarthol De-Orllewin a Chanolbarth Cymru <http://rlp.infobasecymru.net/IAS/>
- Arsyllfa Economaidd Gogledd Cymru <http://nweo.infobasecymru.net/IAS/launch>
- Arsyllfa Sgiliau De Ddwyrain Cymru <http://sewso.infobasecymru.net/IAS/>

⁸ <http://dysgu.llyw.cymru/resources/browse-all/review-of-progression-planning-in-further-education/?skip=1&lang=cy>

Erbyn hyn mae gan y rhan fwyaf o golegau gangen fasnachol benodedig neu uned fusnes – model y mae Estyn yn ei gydnabod fel y ffordd fwyaf effeithiol o ymwneud â chyflogwyr. Er hynny, mae angen i golegau ystyried sut y gallant hybu eu gwasanaethau i ystod hyd yn oed ehangach o gyflogwyr, ac yn enwedig busnesau bach. Hoffwn annog sefydliadau addysg bellach i wneud y mwyaf o werth cyfryngau cymdeithasol drwy rannu manylion y gefnogaeth sydd ar gael gyda chyflogwyr, drwy gynnig gwybodaeth dryloyw am ffioedd, ac astudiaethau achos sy'n dangos sut y gall hyfforddiant fod o fudd i fusnesau a'u gweithwyr.

Blaenoriaeth 4: Cynnal cynaliadwyedd ariannol

Fel sector rydych wedi dangos bod ymateb i doriadau cyllid parhaus yn gofyn am hyblygrwydd a chreadigrwydd er mwyn gallu ymateb gyda chydymdeimlad i anghenion cymunedau a chyflogwyr lleol. Mae cyfle go iawn hefyd i gydweithio a rhannu cynlluniau ar gyfer datblygu yn y dyfodol, gan wneud hynny'n gynnar i osgoi dyblygu a chystadlu diangen ac i wneud y gorau o arbedion cost.

Bydd y nod yn aros yr un fath, sef cydbwysu'r cyfrifoldeb dros fuddsoddi mewn sgiliau gyda rhoi rhagor o bwyslais ar y cyflogwr, a'r unigolyn lle gall, i fuddsoddi mewn dysgu. Fe hoffwn weld y sector yn parhau i chwarae rhan ragweithiol yn y gwaith o geisio cynyddu cyfraniad cyd-fuddsoddi mewn addysg ôl-16.

Nod y rhaglen Cadernid Addysg Bellach a gyhoeddwyd yn ddiweddar yw adeiladu ar raglen lwyddiannus Arwain Cymru a bydd yn cynnig cymorth penodedig i bob sefydliad addysg bellach i adolygu a chryfhau eu harweiniad, eu cynaliadwyedd ariannol a'r ffordd maent yn ymateb i gyflogwyr. Bydd hefyd yn ymgorffori canllawiau, hyfforddiant a digwyddiadau Cymru gyfan, gan gynnwys peilot hyfforddiant ar gyfer uwch arweinwyr ar reoli newid ac ymwybyddiaeth fasnachol. Bydd fy swyddogion yn gweithio gyda sefydliadau addysg bellach dros y misoedd nesaf i sicrhau bod hyfforddiant wedi'i deilwra ar gael i ddiwallu anghenion penodol. Byddwn yn annog eich sefydliadau i fod yn rhagweithiol o ran manteisio ar y cyfle hwn.

Fe hoffwn i weld cynnydd yn eich gwaith gyda chyflogwyr i sicrhau bod y sgiliau sydd ar gael ledled y gweithlu yn cael eu defnyddio a'u bod yn cael eu defnyddio mewn ffordd gynhyrchiol. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda'r Porth Sgiliau ar gyfer busnesau ac unigolion i ddarparu'r wybodaeth, y cyngor a'r arweiniad diweddaraf i gyflogwyr a dysgwyr o ran eu hanghenion hyfforddiant sgiliau ac o ran y cyfleoedd gorau i fodloni eu gofynion a'u dyheadau. Mae'n hanfodol bod eich bod chi fel sefydliadau addysg bellach yn parhau â'ch ymdrechion i ymwneud yn effeithiol â chyflogwyr a chyrrff cynrychioladol ar lefelau cenedlaethol a rhanbarthol, o ran datblygu'r ddarpariaeth bresennol a darpariaeth newydd.

Er mai fy mwriad yw cynnig arweiniad i'r sector, mae yna fentrau eraill sy'n cyd-fynd â'm dyheadau ac a fydd â rhyw ddylanwad ar natur a chyfeiriad addysg bellach yng Nghymru:

Bagloriaeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwrandao ar y pryderon a godwyd ynghylch gweithredu Cymhwyster Bagloriaeth Cymru. Ein nod o hyd yw bod pob canolfan yn gweithio tuag at sicrhau bod 100% o'r dysgwyr cymwys yn gwneud y Fagloriaeth erbyn 2020, gan gydnabod nad yw'n briodol i bawb o reidrwydd; fodd bynnag, mae rhai mân newidiadau wedi'u gwneud i roi eglurder ynghylch ein disgwyliadau ac i ymateb i adborth o'r sector⁹. Hoffwn weld Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn cael ei gynnwys yn rhaglen ddysgu pob dysgwr amser llawn 16-19 oed yn ôl eu llwybr dysgu unigol, yn hytrach na'u bod yn ail-wneud lefelau cymhwyster sydd wedi'u cyflawni eisoes. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'r holl bartneriaid i sicrhau bod manteision sylweddol Bagloriaeth Cymru yn cael eu cyfleu'n effeithiol.

⁹ <http://cymwysteraucymru.org/news/welsh-bacc-report/?lang=cy&>

Darpariaeth Prentisiaethau Uwch

Mae'r Llywodraeth newydd wedi ymrwymo i greu lleiafswm o 100,000 o brentisiaethau o ansawdd uchel yn ystod tymor presennol y Cynulliad. Bydd y prentisiaethau yn canolbwyntio ar bob oedran gydag ymyraethau wedi'u targedu, i annog rhagor o bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed i fynd ar brentisiaethau o ansawdd.

Mae gan sefydliadau addysg bellach ran bwysig i'w chwarae yn y gwaith o godi ymwybyddiaeth dysgwyr o'r cyfleoedd mae prentisiaethau yn eu cynnig. Hoffwn i'ch pwyslais fod ar weithio mewn partneriaeth ag ysgolion a chyflogwyr i wneud y mwyaf o'r manteision y gall prentisiaethau eu cynnig i ddysgwyr ac i fusnesau. Ar y cyd â'r partneriaethau sgiliau rhanbarthol, bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gwaith o greu prentisiaethau yn y meysydd lle mae'r angen mwyaf ar gyfer economïau rhanbarthol Cymru. Bydd hyn yn sicrhau bod y sgiliau gan Gymru i fodloni gofynion prosiectau seilwaith mawr fel Wylfa2, prosiect carchar Wrecsam neu Fetro De Cymru.

Adolygiad Hazelkorn

Cynhaliwyd adolygiad Hazelkorn o drefniadau trosolwg a rheoleiddio addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru mewn ymateb i amrywio a chymhlethdod cynyddol o ran darparu yn y sector addysg ôl-16, ac yn y trefniadau trosolwg cysylltiedig. Mae *Tuag at 2030: Fframwaith ar gyfer datblygu system addysg ôl-orfodol o'r radd flaenaf i Gymru*¹⁰ yn cynnig agenda gyda chywres o amcanion a mentrau ar gyfer addysg ôl-16. Mae'r ddogfen yn amlinellu fframwaith ar gyfer y dyfodol, ac yn gwneud argymhellion o ran y trefniadau llywodraethu gorau i ddiwallu anghenion Cymru'r unfed ganrif ar hugain. Mae fy swyddogion yn gweithio ar ymateb i argymhellion yr adolygiad, a byddwn yn rhannu canlyniad y gwaith hwnnw gyda chi yn ystod y misoedd a ddaw. Rwy'n gwybod y byddwch yn derbyn ac yn croesawu'r newidiadau a all ddod o ganlyniad i argymhellion yr adroddiad.

Tasglu'r Cymoedd

Yn ddiweddar, lansiodd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes Dasglu'r Cymoedd er mwyn gwneud Cymoedd y De yn fwy llewyrchus; bydd y rheini ohonoch sydd yn y De-ddwyrain yn ymwybodol o nodau'r fenter. Bydd yn cefnogi newid yng Nghymoedd y De, yn rhoi cyfleoedd i boblogaethau lleol ac yn gwella deilliannau ar draws mesurau o bob math. Dros y pum mlynedd nesaf, bydd y tasglu yn sicrhau ffocws mwy penodol ar adfywio ac ysgogi twf cynaliadwy yng nghymunedau'r Cymoedd, gyda phwyslais ar swyddi a sgiliau; ysgogi mewnfuddsoddi a darparu gwasanaethau cyhoeddus integredig, sy'n ymateb i anghenion cymunedau lleol.

Mae nodau Tasglu'r Cymoedd yn weddol glir o ran gwella gwasanaethau cyhoeddus a mynediad i waith. Mae'r cynllun strategol yn cynnwys "cynllun gweithredu ar gyfer y Cymoedd" sy'n nodi'r ymyriadau sydd eu hagen yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hirach, gan nodi'r partneriaid sydd eu hagen er mwyn cyflawni pob elfen a phryd. Mae angen mynd i'r afael â chyflogaeth a sgiliau mewn ffordd gydlynol yn y Cymoedd, ac rwy'n hyderu yr ewch ati i ymwneud â'r Tasglu er mwyn helpu i lywio'r agenda ar gyfer y dyfodol. Yn hyn oll, mae ymgysylltu â'r rheini sy'n byw yn y Cymoedd yn hollbwysig.

¹⁰ <http://llyw.cymru/docs/dcells/publications/160310-hazelkorn-report-cy.pdf>